# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 15/09/2026 |
| Aelod Cabinet: | Menna Trenholme |
| Swyddog cyswllt: | Sioned Owen Uwch Reolwr Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar |
| Teitl yr Eitem: | Ymestyn Cynllun Dechrau'n Deg |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Cytuno i ehangu'r Rhaglen Grant Dechrau'n Deg o fewn y Grant Plant a Chymunedau gan ymestyn y cynllun llawn i ardal newydd sef ardal Pwllheli yn sgil gostyngiad yn y niferoedd cymwys i'r rhaglen bresennol.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Mae angen cymeradwyaeth y Cabinet i'r cyfeiriad ar gyfer ymestyn y Rhaglen Dechrau'n Deg yn y sir, ac i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosib.

**3. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

3.1. Mae Rhaglen Dechrau'n Deg eisoes ar gael mewn 7 cymuned yng Ngwynedd. Mae'n cefnogi teuluoedd gyda phlant 0-4 oed drwy gynnig gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys; cefnogaeth teulu; cymorth iaith a lleferydd; a 12.5 awr o ofal plant am ddim i blant pan yn 2 oed.

3.2. Y cymunedau sy'n rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd yw:-

- Marchog 1 a 2 – Maesgeirchen, Bangor
- Deiniolen
- Peblig a Cadnant – Caernarfon
- Gerlan, Ogwen 1 ac Ogwen 2 a rhannau o Dregarth
- Talysarn, Llanllyfni, Carmel, Clynnog Fawr a Penygroes
- Diffwys a Maenofferen, Bowydd a Rhiw -Blaenau Ffestiniog
- De Dolgellau

3.3. Yn sgil di boblogi plant dros y blynyddoedd diwethaf mae'r rhaglen Dechrau'n Deg eisoes wedi ehangu'n raddol i gynnwys gweddill Ogwen 2 a Thregarth, Deiniolen a gweddill Penygroes.

3.4. Er i ni weithredu'r uchod yn llwyddiannus ac ychwanegu ardaloedd newydd mae'r prosiect dal i wynebu gostyngiad yn y niferoedd plant ar y cynllun

oherwydd cwtogiad yn y genedigaethau ar draws yr ardaloedd uchod. Ni ellir mynd yn llai na 10% o'r nifer targed o blant. Mae'r niferoedd yn annerbyniol gan y Llywodraeth ar hyn o bryd gan eu bod yn buddsoddi dros £4400 fesul plentyn ac yn arwain at lefel o danwariant blynyddol i'r cynllun.

3.5. Yn ddiweddar hefyd cyhoeddodd y Llywodraeth newydd eu nod i ehangu darpariaeth gofal plant i gychwyn i gynnwys pob plentyn 2 oed yng Ngwynedd gan roi pwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth gofal plant gyfrwng Cymraeg.

3.6. Cyn ymestyn gofal plant (Cam 3) i bob ardal yn y Sir bu'n rhaid edrych ar gynyddu'r nifer o blant ar y cynllun Dechrau'n Deg a thargedu'r ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd fel bod y teuluoedd mwyaf bregus yn gallu derbyn mynediad llawn i wasanaethau Dechrau'n Deg dros y pedair elfen.

3.7. Yn dilyn cyfarwyddyd y Llywodraeth cynhaliwyd gwaith dadansoddi gan ddefnyddio data Iechyd, data tlodi Gwynedd a data Llywodraeth Cymru i adnabod yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf fel ardaloedd i ystyried.

3.8. Gwnaethpwyd dadansoddiad o'r ardaloedd (LSOA) mwyaf difreintiedig. Wrth gymharu'r opsiynau, mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd a aseswyd yn dangos baich achosion isel a lefelau cymharol isel o anghenion cymhleth. Mewn cyferbyniad, mae De a Gogledd Pwllheli yn dangos cyfuniad o nifer uwch o blant, cyfran uwch o blant bregus, presenoldeb tai cymdeithasol a seilwaith gwasanaethau presennol. Mae hyn yn cynnig y cyfle gorau i dargedu adnoddau lle gallent gyflawni'r effaith fwyaf. Golygai hyn y byddai modd cymhwyso oddeutu 91 o blant ychwanegol yr ardal i dderbyn y cynllun i gyd o 0 oed nes yn 4 oed.

(Gweler Atodiad 1)

3.9. Gwnaethpwyd asesiad effaith cyfansawdd i asesu effaith newid y cynllun ar boblogaeth y sir ar sail nifer o ddeddfau. Bydd y cynnig yn ateb i nifer o'r nodau llesiant o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer y teuluoedd fel Cymru sydd yn fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynol a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
Bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau fel yn yr ardaloedd eraill i weithredu'r pum ffordd o weithio fel gweithio'n integredig gyda'r gwasanaeth Iechyd gan gydleoli gwasanaethau yn lleol a chynnig ymyrraeth gynnar i atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol.

(Gweler Atodiad 2)

3.10. Gan fod y rhaglen yn gweithredu ar hyn o bryd o dan y cap presennol, rydym wedi adnabod bod capasiti ariannol i gyflawni ymestyn i Bwllheli o fewn y grant presennol Dechrau'n Deg, sef cost mwyaf o £131,805 dros flwyddyn lawn. Yn ychwanegol, bydd mwy o lefydd gofal plant ar gael o fis Ebrill 2027 ymlaen gyda datblygiad cyfalaf mawr

o osod caban newydd ar dir Ysgol Cymerau, Pwllheli. Fydd hyn yn caniatáu digon o lefydd ar gael i wasanaethu plant gyda gofal plant

3.11. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n glir mai De a Gogledd Pwllheli yw'r opsiwn sy'n cynnig y manteision strategol mwyaf. Mae lefel yr angen, nifer y plant bregus, y crynodiad o dai cymdeithasol a'r buddsoddiad cyfalaf sydd ar y gweill yn darparu achos cryf dros flaenoriaethu'r ardaloedd hyn fel cam nesaf rhaglen ehangu Dechrau'n Deg.

3.12. Cyflwynwyd y gwaith i Fwrdd Rheoli Dechrau'n Deg, a Thîm Rheoli Adran Blant lle penderfynwyd mai argymell ymestyn y gwasanaeth i LSOA De a Gogledd Pwllheli fyddai orau.

3.13. Os derbynnir yr argymhelliad a bod cytundeb i'r achos gan y Llywodraeth bydd modd dechrau gwasanaethu'r teuluoedd os yn bosib o fis Ionawr 2027 gan raddoli'r ymestyn.

3.14. Byddwn hefyd yn parhau i redeg ymgyrch i gael mwy o deuluoedd estyn-allan yng nghyffiniau'r cynllun presennol i roi gwasanaeth i deuluoedd bregus ar y cyrion. Bydd hyn yn caniatáu'r rhaglen i wasanaethu'r mwyaf o deuluoedd posib o fewn y buddsoddiad grant.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Cyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru i gymeradwyo ymestyn y Rhaglen Dechrau'n Deg llawn i De a Gogledd Pwllheli.

4.2. Cychwyn cofrestru teuluoedd ar y rhaglen o fis Ionawr 2027 os bydd penodiadau staff wedi gallu digwydd.

## 5. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

5.1. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*'Mae'r adroddiad yn amlygu y gwaith sydd wedi ei gynnal er cyrraedd yr argymhelliad. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir.'*

5.2. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Am y rhesymau a amlinellir yn yr adroddiad, nid yw'r Cyngor yn uchafu'r budd y mae yn ei dderbyn ar ran teuluoedd Gwynedd trwy Dechrau'n Deg ar hyn o bryd, gan fod tanwariant. Nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol am y dull a ddefnyddiwyd i ystyried yr opsiynau ar gyfer ymestyn y cynllun."*